

DOLEN Y TAB 122

23 - 24 Medi 2022

Oedfa Sul 25 Medi am 11

Y Parchedig Gethin Rhys gydag Eleri Mai yn llywyddu a Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF

Hydref

- 2** Ann ac Emlyn Davies.
- 9** Y Parchedig Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.
- 16** Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni plant yr Ysgol Sul gyda Gwion yn llywyddu.
- 23** Glenys, Dafydd a Lowri Roberts.
- 30** Y Parchedig Gethin Rhys.

Hefyd ddydd Sul 25 Medi

12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad Emyr Gwyn Evans, Y Tymbl

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth 21

www.cristnogaeth21.cymru

Merched y Tab

SGŴRS DROS BANED

10.30 Bore Gwener

7 Hydref

Y Ganolfan

Croeso cynnes i bawb

Gair o Ddiolch

Mae union flwyddyn wedi mynd heibio ers i Eleri Mai ddechrau ar ei gwaith fel Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yr eglwys. Os na lwyddwyd i drefnu ffanffer ar risiau'r Tabernacl i ddathlu'r garreg filltir hon, nid yw ein diolch fymryn yn llai iddi am ei chyfraniad amhrisiadwy i'r achos yn y Tabernacl ac i'r gymuned leol.



Un o'r amodau sy'n rhaid eu cadw er mwyn parhau i dderbyn nawdd gan yr Undeb drwy'r Rhaglen Arloesi a Buddsoddi yw cyflwyno adroddiad blynyddol o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fe brofodd yn orchwyl yn un cadarnhaol iawn i rai o'r swyddogion wrth gasglu gwybodaeth am yr holl weithgareddau oedd wedi eu trefnu ganddi, ynghyd â chlориannu ei rhinweddau niferus. Ond nid un i orfwys ar ei rhwyfau mohoni gan iddi yn ystod yr haf ddechrau cynllunio datblygiadau newydd dros y deuddeng mis nesaf,

Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod Eleri Mai yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cyngor gwerthfawr mae'n ei dderbyn gan Weithgor y Rhaglen, y Bwrdd ac yn wir holl aelodau'r eglwys dros y flwyddyn ddiwethaf, ond yn arbennig felly ieuencid y Tabernacl a'u rhieni.

PANED, CACEN A CHLONC

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA, CAKE & CHAT

Come for a friendly and relaxed chat

27/09/2022
10.30-12.00

Y Ganolfan Capel Tabernacl
The Vestry, Tabernacl Chapel

Mae croeso cynnes i bawb i fore coffi Macmillan dydd Mawrth. Mi fyddem yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad o gacen neu deisen ar gyfer yr achos teilwng hwn.

Diolch

Eleri Mai



Pigion o'r Wasg

Argyfwng Costau Byw

Cyhoeddwyd dwy eitem papur newydd ddadlennol iawn ddoe (dydd lau) tebyg iawn i'w gilydd, y naill gan y cyn- Brif Weinidog Gordon Brown yn y *Guardian* a'r llall gan Aled Davies, Chwilog yn yr wythnosolyn *Cennad Cymru*.

Byrdwn neges Gordon Brown yn wyneb yr argyfwng costau byw sy'n dwysáu'n wythnosol am y tro cyntaf ym Mhrydain ers sefydlu'r Wladwriaeth Les, yw nad oes dewis bellach gan nifer fawr o deuluoedd ond dibynnu ar fanciau bwyd yn hytrach na nawdd cymdeithasol i gadw'r blaidd o'r drws, ac mai'r elusennau yn hytrach na chredyd cynhwysol yw'r mur amddiffynnol olaf sydd i gynnal yr anghenus. Ond er bod mudiadau dyngarol ac elusennol yn parhau'n dosturiol yn wyneb yr argyfwng presennol, mae llawer o bobl oedd yn arfer cyfrannu'n rheolaidd at eu cynnal bellach eu hunain dan straen ariannol hefyd ac yn ei chael yn anodd cadw dau ben llinyn ynghyd. Fel mab y mans, mae Brown yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog a wneir gan nifer o eglwysi i gefnogi'r anghenus trwy gynnig lloches o fewn eu hadeiladau i'w bwydo a'u cadw'n gynnes, ond bellach mae'n gofidio y bydd yr eglwysi hefyd yn cael trafferth talu eu biliau ynni.

Darlun tebyg iawn a geir gan Aled Davies yntau yn ei adroddiad yn *Cennad Cymru*. Ynddo mae'n sôn am yr heriau fydd addoldai yn eu hwynebu o ganlyniad i'r codiadau arfaethedig. Er enghraifft, roedd capel Pencaenewydd ger Pwllheli yn wynebu cynnydd o 400%, o £2,500 eleni i £12,500 y flwyddyn nesaf. Mae'r wir y bydd cyhoeddiad Llywodraeth San Steffan heddiw yn lliniaru peth ar y costau hyn am y chwe mis nesaf, ond does dim gwarant y bydd y cymorth hwn yn parhau. Yn naturiol, mae Aled Davies yn ofni y bydd hyn yn creu argyfwng mewn pentrefi gwledig lle mae'r achosion yn wan ond yr adeilad yn adnodd pwysig i'r gymuned gyfan. Awgryma nifer o ddulliau i arbed costau gwresogi a goleuo, ac addasu lleoliadau addoli sy'n gynaliadwy.

Os am ddarllen rhagor sydd ganddo i'w gynnig, trowch at <https://www.cennad.cymru>.

Llogi'r Capel / Ganolfan

E-bostiwrch
gehpengwern@yahoo.co.uk
Neges Testun
07710 237327
Ffonio
01433 225205

C21 Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol 2022

Gorwelion Newydd

Canolfan y Morlan, Aberystwyth
10.30yb - 3.30yp, Sadwrn, 22 Hydref 2022

Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'r dyfodol.

Byddwn yn trafod dwy o'n themâu gweithredol cyfredol:

- Capeli a chartrefi
- Cydweithio mewn cenhadaeth

Cyfranwyr

Dafydd Iwan, John Roberts, Pryderi Llwyd Jones, Cris Tomos, Luned Voyle, Gareth Ioan a mwy.

Pris, gan gynnwys coffi a chinio - £25 i'w dalu ar y dydd.

Cofrestrwch drwy anfon e-bost at: cristnogaeth21@gmail.com cyn ddydd Llun, 17 Hydref.

Cyfarfod Blynyddol C21 i'w gynnal am 3.00yp.

Cranogwen
Pregethwr Ysgolfeistres
Ymgyrchyd Darlithydd Ffrind
Golygydd Morwres
Bardd

6.10.22 ~ 7.30yh
Tocynnau £12 / Gostyngiadau £8
Addas i oedran 14+
I archebu lle ewch i:
www.bookwhen.com/gartholwg

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgic
Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

01443 570075

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk